***Statws** This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 Rhif 2621 (Cy. 258)

# ADEILADU AC ADEILADAU, CYMRU

## Rheoliadau Adeiladu (Diwygio Rhif 2) (Cymru) 2013

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *14 Hydref 2013* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *16 Hydref 2013* |
| *Yn dod i rym - -* | *14 Tachwedd 2013* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 1 ac 8(6) o Ddeddf Adeiladu 1984(**1**) a pharagraffau 1, 4, 4A, 7, 8 a 10 o Atodlen 1 iddi, sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**2**) yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â Phwyllgor Cynghori Cymru ar Reoliadau Adeiladu a chyrff eraill sydd, yn eu tyb hwy, yn cynrychioli'r buddiannau dan sylw yn unol ag adran 14(7) o'r Ddeddf honno.

(**1**) 1984 p. 55. Diwygiwyd adran 1 gan adran 1 o Ddeddf Adeiladau Cynaliadwy a Diogel 2004 (p. 22); mewnosodwyd paragraff 4A o Atodlen 1 gan adran 8 o'r Ddeddf honno; diwygiwyd paragraff 7 o Atodlen 1 gan adran 3 o'r Ddeddf honno a chan adran 11 o Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd ac Ynni Cynaliadwy 2006 (p. 19); diwygiwyd paragraff 8 o Atodlen 1 gan adran 3 o Ddeddf Adeiladau Cynaliadwy a Diogel 2004 a chan adran 40 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (p. 29).

(**2**) Cafodd y swyddogaethau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 1 ac 8(6) a pharagraffau 1, 4, 4A, 7, 8 a 10 o Atodlen 1 i Ddeddf Adeiladu 1984, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru gan Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) (Rhif 2) 2009 (O.S. 2009/3019).